



# Hybu Newid Ymddygiad

Efallai eich bod yn ystyried eich gwaith fel ymgyrchu<sup>1</sup>, dylanwadu, eirioli neu greu newid cymdeithasol - gyda'r nod o newid ymddygiad pobl. Gall hyn fod ar sawl ffurf - er enghraifft efallai y bydd grwpiau a sefydliadau'n dymuno:

- rhedeg ymgyrchoedd atal ysmygu
- hybu parcio'n fwy ystyrion
- codi ymwybyddiaeth o fynediad ar gyfer pobl o bob gallu
- codi ymwybyddiaeth o hunan-niweidio a hunanladdiad gyda rhaglenni sy'n targedu pobl ifanc

## **Mae newid cymdeithasol wedi'i ategu gan y fath ymdrechion - y maent oll yn gweithio i wneud gwir wahaniaeth i lesiant ac ansawdd bywydau pobl.**

Er na all y Gronfa Gymunedol gefnogi unrhyw brosiect sydd ag elfen wleidyddol neu lobio, ffocws sy'n gyfan gwbl crefyddol neu unrhyw beth sy'n gysylltiedig ag ynni nad yw'n adnewyddadwy, rydym yn annog ceisiadau sydd â'r nod o alluogi mwy o bobl i gyflawni eu potensial a gweithio i ymdrin â materion sydd ag effaith negyddol ar iechyd a llesiant.

Mae Prosbectws y Gronfa<sup>2</sup> yn amlygu nodau a chamau gweithredu cymunedol pwysig mewn perthynas â newid ymddygiad:

- Cymunedau sy'n fwy iach ac actif
- Dechrau'n gynnar i daclo problemau hir dymor
- Rhwydwaith o eiriolwyr cymunedol
- Ymchwilio i ddatrysiadau newydd i ddatblygu sgiliau bywyd a hyder
- Ennyn diddordeb am a newid ymddygiad ynni a chynladwyedd trwy addysg
- Ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth
- Ymgyrchoedd i ennyn diddordeb pobl leol mewn datblygu'r dyfodol a gwasanaethau yn eu hardal

## **Dylai ceisiadau am brosiectau a rhaglenni mewn perthynas â newid ymddygiad:**

1. ddangos tystiolaeth o angen - beth yw'r mater rydych yn ceisio ymdrin ag ef? Sut ydych chi'n gwybod ei fod yn broblem?
2. disgrifio'n union beth rydych yn bwriadu ei wneud ac esbonio pam rydych yn teimlo y bydd y dull hwn yn gweithio.
3. cynnwys manylion partneriaid y prosiect - er enghraifft, os ydych yn rhedeg prosiect sy'n ymwneud â mynediad ar gyfer pobl o bob gallu, ydych chi'n gweithio gyda grwpiau cefnogi anabledau lleol, ysgolion lleol, sefydliadau sy'n rheoli adeiladu cymunedol etc.?
4. cynnwys costiau clar - beth mae ei angen mewn gwirionedd i wneud i'r prosiect weithio?
5. disgrifio sut caiff y prosiect ei hyrwyddo a'r dulliau ymgyrchu sydd i'w defnyddio - gan adnabod unrhyw faterion llosg posib a sut y byddwch yn delio â'r rhain.
6. disgrifio'n glir pa wahaniaeth a ddaw y sgil y prosiect - beth fydd wedi newid ar ôl iddo gael ei gwblhau? Rydym yn cydnabod bod peri newid yn aml yn hir dymor ac yn annarogan ac nad yw bob amser yn glir beth fydd y deilliannau yn y diwedd, ond mae'n rhaid i chi fedru darparu disgrifiad clar o ba deilliannau rydych eisiau ei gweld a sut y byddwch yn monitro ac yn darparu tystiolaeth o'r deilliannau.
7. disgrifio beth fydd yn digwydd pan ddaw y prosiect i ben - sut caiff yr hyn a ddysgir ei ddefnyddio? Os yw'r gwaith yn gynllun peilot, a allai gael ei gyflwyno rhywle arall etc.

*DS: ni fydd cydymffurfio â'r canllaw hwn yn gwarantu y bydd cais yn llwyddiannus - nid yw ond yn rhoi arwydd o rai elfennau o'n proses asesu a'n meini prawf. 1 Diffiniad: gweithio mewn ffordd drefnus a gweithredol tuag at nod penodol, fel arfer un sy'n gymdeithasol neu'n wleidyddol.*